TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Dyddiad cyhoeddi: 07 Rhagfyr 2018

Hysbyseb ymddiheuro Trafnidiaeth Cymru

Rwy'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch am gost yr hysbyseb 'ymddiheuro' a gyhoeddwyd ar gyfryngau amrywiol ar 20 Tachwedd 2018.

Gallaf gadarnhau fod y gost i bwrs y wlad yn £0. Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru dalodd am gost yr hysbyseb. Mae Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru yn rhedeg gwasanaethau rheilffyrdd Cymru a'r Gororau, ac mae'n fenter sy'n cael ei chynnal ar y cyd rhwng dau gwmni yn y sector preifat sef Keolis ac Amey. Nid yw'r cwmnïau hyn dan awdurdodaeth y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (2000).

Cyflwynwyd eich cais Rhyddid Gwybodaeth i Drafnidiaeth Cymru, cwmni dielw sydd dan berchnogaeth Llywodraeth Cymru. Sefydlwyd Trafnidiaeth Cymru i ddarparu cymorth ac arbenigedd i Lywodraeth Cymru ar brosiectau trafnidiaeth yng Nghymru. Trafnidiaeth Cymru sy'n rheoli'r Cytundeb Grant rhwng Llywodraeth Cymru a Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru. Felly, nid oes gan Trafnidiaeth Cymru'r wybodaeth y gwnaethoch gais amdano.

Os hoffech wneud cwyn am y modd y cafodd eich cais ei drin, ysgrifennwch at Jeremy Morgan, Swyddog Rhyddid Gwybodaeth, trwy e-bost i freedomofinformation@tfw.wales neu drwy'r post i Trafnidiaeth Cymru, Tŷ South Gate, Caerdydd, CF10 1EW.

Mae'n rhaid i mi hefyd eich cyfeirio at adran 50 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth lle gallwch ofyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth benderfynu a ydym wedi delio â'ch cais yn unol â'r Ddeddf ai peidio. Dyma fanylion y Comisiynydd Gwybodaeth:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

e-bost: casework@ico.gsi.gov.uk
Ffôn: 01625 545745
Ffacs: 01625 524510

Ond, dylech nodi bod y Comisiynydd Gwybodaeth fel arfer yn disgwyl eich bod chi wedi dilyn ein prosesau cwyno mewnol cyn gwneud cais. Gellir cael rhagor o gymorth ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth: www.ico.org.uk

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Jeremy Morgan